

Llun13^{eg} Chwefror 2017

Annwyl aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a'r tîm cymorth,

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Ionawr 2017.

Rwy'n cydnabod yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Ceredigion a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Ynghlwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a sut yr ydych yn bwriadu adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), sydd eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau mocsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae strwythur y 'cyfnodau cylch bywyd' yn ymagwedd ddiddorol a chymhellgar yr wyf yn ei hargymell. Drwy adrodd stori am y pethau sy'n penderfynu llesiant yr unigolyn a sut y

mae arnynt angen gwasanaethau cyhoeddus ar wahanol adegau, rydych wedi gwneud camau bras tuag at ddod â'r asesiad yn fyw a'i wneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach.

Mae'n amlwg eich bod wedi meddwl llawer am ennyn **ymgyfraniad pobl a chymunedau**, drwy ystod o ymagweddau a drwy fframio eich cwestiynau yn yr arolwg. Buaswn yn eich annog i adeiladu ar hyn i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgysylltu drwy ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Mae cynllunio ar gyfer yr **hirdymor** yn rhan allweddol o'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn bwriadu ei wireddu ac mae hyn yn rhywbeth a fyddai o fudd i chi y gallech roi mwy o ystyriaeth iddo wrth symud tuag at gynllunio llesiant. Credaf fod gennych gyfle arbennig i adeiladu hyn i mewn i'ch ymagwedd cylch bywyd, efallai drwy feddwl am natur bosibl cyfnodau arbennig bywyd yn y flwyddyn 2040.

Yn nhermau **integreiddio**, mae eich strwythur yn addas iawn ar gyfer archwilio'r cysylltiadau rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol mewn perthynas â chyfnodau arbennig bywyd. Dylech adeiladu ar hyn drwy sicrhau eich bod yn creu cysylltiadau perthnasol â'r saith nod llesiant drwy gydol eich gwaith a bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau cymharol eich sefydliadau gwahanol wrth i chi **facsimieiddio eich cyfraniad tuag at y nodau**.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynllunio llesiant. Mae hwn yn faes lle mae angen i chi ffocysu eich sylw ar yr hyn a ddywedir wrthyf gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd - nodais eich bod wedi gweithio ar y cyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ystod eich gwaith ymgysylltu ac mae hyn yn galonogol iawn. Yn awr mae gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth yng Ngheredigion i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodwedddion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangoswyd gennych a'ch parodrwyd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech symud tuag at gwrdd â'ch cydamcanion hoffwn weld manylion pellach am y modd y byddwch yn defnyddio'ch asesiad i symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg bydd hefyd yn bwysig i chi roi'r adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau,



Sophie Howe,
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar

Asesiad o Lesiant Lleol drafft BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar *Ymgynghoriad ar Asesiad o Lesiant Lleol drafft Ceredigion (Ionawr 2017)*. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion. Ymgynghoriad drafft Ionawr 2017
- Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion. Adroddiad Ymgysylltu'r Ymgynghoriad Tachwedd 2016
- Trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC ar 24^{ain} Ionawr

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i lywio cyhoeddi'r asesiad yng ngwanwyn 2017, lle mae hynny'n bosibl, a hefyd y prosesau parhaol o ddatblygu eich asesiad a'ch cynllunio llesiant.

Mae'r asesiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad, methodoleg a dadansoddiad yr asesiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at asesiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCa, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

Tra'n bod yn deall bod yr Asesiadau Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y misoedd sy'n dod, mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol y byddir yn gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion yr ydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut y maent yn cynllunio i facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol gan ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rydym ar ddeall y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau a 'fframiau' ar gyfer adlewyrchu llesiant; yn achos Ceredigion, y pum cyfnod bywyd: Dechreuadau newydd; Plentyndod; Ieuenctid; Oedolion a Phobl Hŷn. Mae'r ymgynghoriad hefyd wedi cael ei adeiladu o amgylch llesiant diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Rydym yn cydnabod, nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, bod y ffocws ar gyfnodau bywyd yn ymagwedd ddiddorol ac yn ddefnyddiol mewn rhai ffyrdd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data, ei ddadansoddiad a'n dealltwriaeth ni o'r modd y mae canfyddiadau'r asesiad yn effeithio ar nodau llesiant cenedlaethol yn ogystal â llesiant lleol.

Mae'r asesiad yn ailadrodd ei bod yn ofynnol i'r BGC ddefnyddio a chyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, ac yn Atodiad 4 mae yna beth mapio ar draws y nodau hyn hyd at y cyfnodau bywyd. Fodd bynnag, gellid gwella'r ddogfen drwy gynnwys mwy o drafodaeth drwyddi draw o'r modd y mae'r canfyddiadau, yr heriau a'r penawdau'n cyfrannu at neu'n effeithio ar nodau llesiant cenedlaethol. Gallai hefyd fod yn fwy clir ar yr hyn y mae Atodiad 4 yn cyfrannu at y ddogfen.

Byddem yn disgwyl cyfathrebiad eglurach o'r berthynas rhwng yr asesiad a'r ymyriadau yn y Cynllun â'r nodau llesiant cenedlaethol, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant yng Ngheredigion.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn.

Mae'n amlwg o'r asesiad a'r rhestr gyfeirio bod ystod eang o ddata'r DU, data cenedlaethol, rhanbarthol a pheth data lleol wedi ei ddefnyddio i lywio'r asesiad. Mae hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu sylwebaeth gymhellgar wedi ei ysgrifennu'n dda ar gyflwr llesiant a'r pethau sy'n penderfynu llesiant unigolion drwy Geredigion-gyfan. I ryw raddau gosodir Ceredigion-gyfan mewn cyd-destun, gan beintio darlun cyfoethog o'r economi sylfaen, natur wledig ac economi gwasanaeth cyhoeddus a pheth myfyrio ar wahaniaethau rhwng y gogledd a'r de.

Gellid gwella'r dadansoddiad drwy roi llawer mwy o ffocws ar gymunedau unigol ar draws yr ardal. Mae'r ymagwedd gyfredol yn cyfleu dealltwriaeth gyfyng o lesiant mewn gwahanol gymunedau a lleoedd, gwahaniaethau o fewn cymunedau neu rhwng cymunedau, anghydraddoldebau neu faterion lleol arbennig o ddifrifol. Mae Atodiad 3 yn rhoi rhesymwaith dros beidio defnyddio data LSOA a data MSOA; fodd bynnag credwn y dylai asesiad llesiant roi dealltwriaeth fwy lleol (a llai homogenaidd) o lesiant, a bydd yn chwilio am dystiolaeth o hyn wrth i gynllunio llesiant symud yn ei flaen. Bydd yn beth cadarnhaol os gwnaiff y mapio asedau a gynllunnir ddarparu'r lefel hwn o fanylder.

Byddai'r asesiad ar ei ennill petai'n cynnwys data ar ynni critigol, dŵr, trafndiaeth a seilwaith diogelu'r arfordir. Golyga hyn nid yn unig roi disgrifiad, ond dehongliad o'r heriau allweddol a'r cyfaddawdau. Mae'r math hyn o wybodaeth o berthnasedd allweddol i'r BGC, cyflwyniad gwasanaethau a llesiant cymunedau yn y dyfodol.

4. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig o bobl.

Blaenoriaeth i'r Swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau gwirioneddol pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwasanaethau.

Mae defnyddio ffrâm cyfnodau bywyd yn yr ymgynghoriad wedi rhoi mewnwelediad manwl i'r BGC o lesiant unigolion a'r hyn sydd arnynt ei angen oddi wrth y gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yn gadarnhaol i weld bod y cwestiynau ymgynghori'n gofyn i ba raddau y oedd anghenion gwasanaethau ar lefel unigolion a chartrefi'n cael eu diwallu. Mae hyn wedi ei ddefnyddio'n dda yn naratif y brif ddogfen i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u hanghenion drwy gydol eu bywyd. Mae hyn hefyd wedi amlygu'r heriau i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Ngheredigion.

Gellid gwella'r asesiad drwy roi rhyw syniad o'r gwahaniaethau gofodol mewn gwasanaethau cyhoeddus ar draws Ceredigion (tu hwnt i her allweddol ei natur wledig). Er enghraifft yn achos mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd mewn ardaloedd gwledig mewn cymhariaeth ag ardaloedd trefol - a sut y gallai hyn wahaniaethu mewn gwahanol drefi a phentrefi ar draws Ceredigion, yn dibynnu ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac ymgyfraniad y trydydd sector.

Byddai mwy o eglurder ar y berthynas rhwng y data o'r Asesiad Poblogaeth a'r asesiad hwn, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal â'r Ddeddf Llesiant, hefyd yn fanteisiol. Nodir bod cyfeiriad at hyn, ond byddai egluro'r hyn a olygir ganddo i wasanaethau cyhoeddus ar draws Ceredigion yn ddefnyddiol.

5. Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o ennill cytbwysedd rhwng data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Mae'n glir bod ystod eang o ddata meintiol ac ansoddol seiliedig yn y DU a Chymru, astudiaethau achos a deunydd arall wedi ei ddefnyddio i lywio'r sylwebaeth yn yr asesiad llesiant. Mae'r 'cyd-destun' a'r adran cyfnodau bywyd yn cynnwys tystiolaeth glir ac wedi ei ddadlau'n glir, gan ddefnyddio data ymgynghori, ac mae'r materion sy'n dod i'r amlwg o'r deunydd y cyfeiriwyd ato wedi ei gymhwyso'n dda i Geredigion yn ei chyfanrwydd.

Fel y trafodwyd yn gynharach, gellid gwella'r Asesiad drwy roi mwy o wybodaeth am lefydd a chymunedau arbennig. Mae yna rai agweddau eraill ar y naratif a fyddai'n rhoi dealltwriaeth gliriach o'r materion sy'n hanfodol bwysig i lesiant ar draws yr ardal ac o fewn ardaloedd arbennig o Geredigion yn cynnwys: cydnerthedd seilwaith; cydnerthedd yr economi amaethyddol, amddiffyn rhag llifogydd; cyflenwad ynni; cyflenwad dŵr; ansawdd pridd (yn ychwanegol ar fawn); materion traws ffiniau (gweler 10); cyflogaeth y sector cyhoeddus drwy gyfnod o galedi; diffyg cysylltedd. Tra bod y materion hyn wedi cael sylw yn y naratif maent yn aml yn ddisgrifiadol - (e.e. cysylltiadau trafndiaeth) heb ddehongli paham y gallai'r materion hyn fod yn bwysig a sut y gallai eu heffaith ar lesiant wahaniaethu, er enghraifft, yng Nghastellnewydd Emlyn o'i gymharu â Llanbedr Pont Steffan neu Aberystwyth.

Mae yna gyfle i sylwebu, i ddadansoddi a dehongli'n llawer cliriach ar gyfer datblygu ein dealltwriaeth o *oblygiadau*'r data ar gyfer Ceredigion, yn ei chyfanwaith, o safbwynt cymunedau unigol ac yn arbennig grwpiau arbennig o fewn y gymuned.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau'r ardal. Mae hyn yn cynnwys y cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau a'r diffygion o fewn yr ardal.

Mae'r adran 'cyd-destun' Ceredigion yn amlygu mewn dull defnyddiol rai heriau dros y tymor byr a chanolig e.e. tai, amddifadedd, risg llifogydd a rheoli mawn. Fodd bynnag, fel y trafodwyd ym mhwynt 5 nid yw heriau llesiant yn 'homogenaidd' a byddant yn berthnasol i wahanol gymunedau, tirweddau, llefydd ac unigolion mewn ffyrdd gwahanol.

Mewn rhai mannau mae prinder *dehongli* ac mae angen mynd i'r afael â hyn i'w wneud yn fwy penodol i Geredigion e.e. mae'r asesiad risg yn sgil yr hinsawdd (tudalennau 51 a 52) yn sôn am effeithiau hinsawdd generig - pa un o'r rhain sydd o bryder arbennig o gadw mewn golwg nodweddion unigryw Ceredigion?

Mae'r dadansoddiad o ba heriau sy'n ymwneud â'r tymor byr, canolig neu'r hirdymor yn gyfyng, a'r modd y bydd y rhain yn effeithio ar lesiant, er enghraifft amddifadedd aml-ghenedlaeth, materion rhyng-ghenedlaeth perthnasol i amaeth; atgyweirio ffyrdd yn yr hirdymor; tlodi ymhlith gweithwyr. A chadw mewn golwg y rhagolygon tymor canolig parthed y caledi a wynebir gan y gwasanaethau cyhoeddus a Brexit - beth allai'r rhain ei olygu i Geredigion, ac yn arbennig gymunedau yn y meysydd polisi hyn? Tra na ellir dod o hyd i ddata, mae'r rhain yn faterion allweddol ar gyfer llesiant dros y tymor canolig, a byddai'r asesiad ar ei ennill drwy gydnabod y rhain a heriau allweddol eraill. Gellid amlygu hefyd densiynau a chyfaddawdu er enghraifft rhwng tai a risgiau llifogydd, a gallai mapio asedau fod yn ymagwedd ddefnyddiol tuag at ymgorffori'r materion hyn.

7. Ymgysylltu, ymglyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymglyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymglyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Mae'n galonogol i weld yn *Adroddiad Ymgysylltu'r Ymgynghoriad* bod llawer o ymgysylltu wedi digwydd drwy gyfrwng yr ymgynghoriad a'r rhestr o randdeiliaid, sy'n nodi ystod drawiadol o gyrff ac unigolion a grwpiau sydd wedi dangos diddordeb. Mae dull o fframio'r cwestiynau ar gyfer yr arolwg yn nodedig, yn ffocysu ar unigolion, cartrefi a gwasanaethau. Mae hyn, ynghyd ag ymgysylltu yn ystod digwyddiadau a gweithgareddau gydag ysgolion, yn rhoi data ardderchog ar gyfer llywio'r asesiad llesiant. Bydd hyn ynghyd â mwy o wybodaeth leol (gweler adrannau blaenorol) yn rhoi sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer y broses gynllunio llesiant.

Mae ymdrin â'r arolwg mewn cyfuniad ag awdurdodau cyfagos yn amlwg wedi bod yn fanteisiol o ran effeithlonrwydd, a dylid ei argymhell. Bydd hefyd yn ddiddorol i weld sut y gall cydweithio pellach ddehongli'r data i lywio materion trawsffiniol (gweler 10).

Nid yw mor glir pa faint o gydweithio fu rhwng partneriaid y sector cyhoeddus, y trydydd sector ac eraill yn nhermau darparu data yn ystod y broses o gynhyrchu asesiad, dadansoddi a dehongli. Byddai'r asesiad ar ei ennill petai yna adran yn disgrifio sut y cafodd yr asesiad ei gynhyrchu, a rôl y Cyngor yn hyn – a'i gydweithwyr allweddol (gan amlygu er enghraifft y gweithgaredd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn yr ymgynghoriad).

Bydd cydweithio rhwng sectorau yn amlwg yn beth pwysig wrth gynllunio llesiant, a gallai rhoi mwy o bwyslais ar rôl sectorau eraill annog eu hymgysylltiad â'r asesiad a'r cynllun yn y dyfodol. Mae yna gyfle i roi disgrifiad llawnach o'r trydydd sector a'i rôl mewn llesiant yng Ngheredigion, a sut mae'n ymgyfrannu wrth gynorthwyo llesiant. Nid yw'n glir ychwaith pa faint o ymgyfraniad a gafwyd gan y sector preifat yng nghynllunio llesiant yn yr ardal hyd yn hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn deall cyd-destun economïau lleol a rhanbarthol, patrymau cymudo, twristiaeth, a chanol trefi, y gweithlu hyn a rôl yr economi gwledig.

8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilios sefydliadol wrth gynhyrchu'r Asesiad.

Mae'n amlwg bod y naratif ar gyfnodau bywyd yn rhoi enghreifftiau da o ddulliau o integreiddio ar draws themâu - gan ffocysu ar yr unigolyn, er enghraifft wrth ystyried y berthynas rhwng amddifadedd, ansawdd tai ac iechyd. Mae hyn yn adrodd stori gymhellgar am beth sy'n penderfynu llesiant unigolyn.

Gellid gwella'r Asesiad drwy gymhwyso'r un ymagwedd tuag at *gymunedau* ar draws Ceredigion. Mae'n bosibl bod niferoedd gweithwyr tlawd, costau tai a thueddiadau iechyd mewn rhai llefydd arbennig yn wahanol i'r rhai mewn cymunedau eraill. Yn yr un modd ar *lefel strategol* byddai'r cydadwaith rhwng tueddiadau economaidd, canol trefi ac argaeledd gwasanaethau yn rhoi dealltwriaeth o lesiant ar draws yr ardal. Gellid cryfhau hyn yn yr adran 'cyd-destun' o'r asesiad.

Mae'r arolwg yn rhoi data mewn pedair thema, fel yr amlygir yn *Adroddiad Ymgysylltu'r Ymgynghoriad*. Gellid gwella'r ddwy ddogfen drwy gynnwys adran i amlygu'r gydberthynas rhwng llesiant diwylliannol, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yng Ngheredigion - beth a ddywed y gydberthynas hon wrthym am lesiant yn yr ardal?

Fel y dywedwyd eisoes, bydd gennym ddiddordeb i weld sut y caiff data'r Asesiad Poblogaeth ei integreiddio i mewn i'r broses cynllunio llesiant.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig *a'r hirdymor* drwy gydol yr asesiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddi-ddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adran Tueddiadau'r Dyfodol yn adlewyrchu rhai o'r themâu allweddol a ddarparwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar eu diweddariad o'u hadroddiad ar dueddiadau'r dyfodol sydd ar fin ymddangos: Newid demograffig, newid hinsawdd; dyfodol gwaith; dyfodol gwasanaethau. Mae'r adran hon yn darparu disgrifiadau generig o'r tueddiadau ynghyd â dehongliad cyfyng o'u heffaith ar Geredigion ei hunan. Mae yna hefyd rai enghreifftiau yn yr asesiad lle mae data hirdymor wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r 'cyd-destun' ynghylch llifogydd, poblogaeth, tai a newid hinsawdd.

Mae angen i'r gydnabyddiaeth a'r disgrifiad o dueddiadau'r dyfodol gael eu datblygu'n *ddehongliad* o'r rhain yng Ngheredigion, h.y. pa gymunedau sy'n arbennig o agored i niwed/yn gydnerth yn yr hirdymor parthed y materion hyn, ac ym mha ffordd y maent yn agored i niwed/yn gydnerth. Eto, mae hwn yn rhywbeth y gellir mynd i'r afael ag ef fel rhan o'r gweithgaredd Cynllunio Asedau arfaethedig. Gall y bydd cyfle hefyd i wau tueddiadau'r dyfodol i mewn i'r ffrâm 'cyfnodau bywyd', drwy ystyried llesiant dinesydd (neu gymuned) yn 2040, drwy gynllunio senario.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw i gynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yn yr asesiad cyntaf a gyhoeddir yn y misoedd sydd i ddod.

10. Materion Trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dadansoddiad manylach o faterion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Geredigion yn fanteisiol, i lywio proses y cynllun llesiant. Gallai'r asesiad ddarparu eglurhad eglurach o 'rôl' yr ardal o fewn y rhanbarth.

Dim ond ystyriaeth gyfyng o berthynas Ceredigion o fewn y rhanbarth a roddir yn y naratif a ddarperir yn yr adran 'cyd-destun'. Does dim sôn am Wynedd, Sir Gaerfyrddin na Sir Benfro

a dim ond unwaith y crybwyllir Powys fel BGC cymdogol sydd hefyd yn 'rheoli' gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen cynnwys materion llesiant trawsffiniol megis trafniadaeth, darpariaeth iechyd, cymudo, seilwaith, tai a thirwedd yn yr adran hon. Mae yna gysylltiadau sefydledig rhwng cyrff cyhoeddus ar draws yr 'ôl troed' hwn ag angen eu hadlewyrchu yn y broses cynllunio llesiant. Gall y bydd partneriaid allweddol fel Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyfoeth Naturiol Cymru'n medru helpu i ddarparu'r persbectif rhanbarthol hwn. Bydd gennym hefyd ddi-ddordeb mewn gweld a fydd y cydweithio ar yr arolwg gyda Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn medru cael ei ddatblygu i helpu yn hyn o beth.

Bydd hefyd yn bwysig i FGC Ceredigion ystyried canfyddiadau cynnar asesiadau llesiant lleol cymdogol wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen. Mae'n beth cadarnhaol bod yr asesiad yn cydnabod y 'darlun anghyflawn' fel mater sydd angen sylw, fodd bynnag nid yw'n eglur yn y ddogfen sut y bydd y mater hwn yn cael ei reoli. Ydy hyn yn rhywbeth a gaiff ei reoli fel rhan o grŵp Rhanbarthol y BGC, neu gan y BGC, neu'r Cyngor?

Byddai'n ddefnyddiol petai'r asesiad yn rhoi mwy o fanylion am fylchau data o wahanol rannau o'r gwaith i gynyddu dealltwriaeth o beth allai fod ei angen yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor - h.y. beth sydd ar goll sydd o bwys yn awr ar gyfer llywio cynllunio llesiant; beth a fyddai'n dda i'w adeiladu yn y tymor canolig a beth yw materion data'r hirdymor. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a rheolaeth i mewn i'w busnes a chynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, Swyddfa ac Uned Ddata Cymru am anghenion y BGC.

12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimedd* eu cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n amlwg bod yna elfennau o'ch ymagwedd sy'n dangos sut yr ystyriwyd y pum dull o weithio fel rhan o'r broses datblygu asesiad:

- *Ymgysylltu ac Ymgysylltiad* - drwy gyfrwng yr arolwg llesiant a gweithgareddau ymgysylltu cysylltiedig [gweler pwynt 7]

- *Cydweithio* – rhwng BGCau Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin [gweler pwyntiau 8, 10]
- *Yr hirdymor* - defnydd o ddata hawdd ei gael ar hinsawdd, tai a phoblogaeth ac Adran Tueddiadau'r Dyfodol [gweler pwynt 9]

Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei ddefnyddio fel dull o weithredu yn yr asesiad hwn. Nid oes sôn am yr egwyddor pum dull o weithio yn y dogfennau na'r atodiadau. Mae'n anodd gweld sut y gellir cymhwyso'r 'dulliau eraill o weithio', integreiddio ac atal, i'r hyn sydd wedi ei gynhyrchu yn yr asesiad. Gall fod y rhain ymhlyg ond mae'r ddeddfwriaeth yn datgan yn eglur bod yn rhaid i'r BGC ddefnyddio'r egwyddor i facsimeiddio ei gyfraniad i'r nodau llesiant.

Byddai'r asesiad ar ei ennill o fod yn eglurach am y modd y bydd yr egwyddor yn parhau i ffurfio'r broses cynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae hwn yn faes lle gellir ystyried ymhellach. Byddai'r ddwy ddogfen ar eu hennill petaent yn fwy eglur am: y camau nesaf; sut y gall unigolion a sefydliadau barhau i ymglyfrannu; yr amserlen a'r hyn y mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud. Mae'n bwysig bod yr eglurhad yn cyfleu sut y bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i ffurfio amcanion ar gyfer y BGC.

Nodir bod yna beth deunydd sy'n mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn ar wefan y BGC. Dylai hwn gael ei gynnwys yn y dogfennau i gyfeirio'r darllenydd a rheoli disgwyliadau ar amserlenni a gweithredu.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r Asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymglyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod lefel yr ymgysylltiad drwy'r arolwg llesiant yn arbennig o gadarnhaol. Hefyd mae

ansawdd y naratif a ddarparwyd ar gyfnodau bywyd pobl ledled Ceredigion yn nodedig. Mae'r gwaith yn darparu sylfaen gref i'r BGC gychwyn blaenoriaethu materion ar gyfer y cynllun llesiant a phenderfynu pa asesiadau pellach sydd eu hangen.

Ar yr un pryd, credwn fod angen i'r materion canlynol dderbyn sylw er mwyn gwella'r Aseiad wrth iddo esblygu:

Ardal a lle – ategu dadansoddiad cyfnodau-bywyd, gwell dealltwriaeth o lesiant o fewn ardaloedd o Geredigion, ei threfi, ardaloedd gwledig, ac ardaloedd arfordirol i adlewyrchu'n well y materion allweddol ar gyfer llesiant mewn gwahanol leoedd.

Integreiddio ar draws themâu – mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ledled Ceredigion.

Cyd-destun rhanbarthol – dadansoddiad ehangach o le Ceredigion yn y rhanbarth a'i chydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cymdogol, ac effaith hyn ar lesiant.

Heriau – rhoi dadansoddiad eglurach o'r heriau (a'r cyfleoedd) sy'n wynebu llesiant mewn cymunedau arbennig ar draws Ceredigion ac ar lefel rhanbarthol yn y tymor byr, canolig a hirdymor.

Tueddiadau'r dyfodol – talu mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar lesiant yng Ngheredigion yn gyffredinol, i gymunedau arbennig ac i ddinasyddion y dyfodol (drwy'r naratif cwrs bywyd).

Symud ymlaen – rhoi disgrifiad eglurach o'r modd y bwriedir defnyddio'r aseiad data, sut y bydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut y bydd cynllunio llesiant yn symud yn ei flaen yng Ngheredigion.

Nodau llesiant – dealltwriaeth eglurach o'r berthynas rhwng y materion a nodwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol.

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr aseiad tra gellid mynd i'r afael â rhai ohonynt wrth i'r aseiad esblygu a chael ei gadw fel dogfen 'fyw'.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio gwaith parhaus y BGC fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach wrth i'r BGC symud ymlaen.